

OEDFAON A DIGWYDDIADAU'R FRO DROS YR HAF

DYDD IAU, GORFFENNAF 30^{AIN}	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. (SYLWCH AR Y NEWID DYDDIAD)
DYDD SUL, AWST 2^{IL}	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yng Nghapel Bethania, Llansannan am 10.00.
DYDD SUL, AWST 9^{FED}	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Parch. Meirion Morris yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00, yng Nghefn Berain am 2.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 6.00. Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
DYDD MAWRTH, AWST 11^{EG}	<ul style="list-style-type: none"> Cofiwch am y cinio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
DYDD SUL, AWST 16^{EG}	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00, ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 10.30.
DYDD MERCHER, AWST 19^{EG}	<ul style="list-style-type: none"> Adnabod Cymdeithasol – Taith gerdded hamddenol. Cyfarfod wrth Neuadd y Pentref, Nantglyn am 6.30. Os bydd y tywydd yn anffafriol, ffoniwch Mair (870632/07900 627536) i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio. Croeso i bawb.
DYDD SUL, AWST 23^{AIN}	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Parch. Eric Greene yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00, ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00.
DYDD SUL, AWST 30^{AIN}	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00. Bydd y Parch. Jim Clarke yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00, yn Henllan am 2.00, ac yng Nghefn Meiriadog am 6.00. Bydd y Parch. R. W. Jones yn arwain oedfa yn Saron am 2.00.
DYDD MAWRTH, MEDI 1^{AF}	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarfod Gweddi'r Fro yn Groes am 7.30.
DYDD GWENER, MEDI 4^{YDD}	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00.
DYDD SUL, MEDI 6^{ED}	<p style="text-align: center;">OEDFA ARBENNIG I'R FRO</p> <p>Cynhelir oedfa yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 10.30 i gomisiynu Gwion Dafydd a Sarah Johnson i'r swydd 'Cynorthwydd Gweinidogaethol', a hefyd i dderbyn rhai o ieuenctid yr ofalaeth yn gyflawn aelodau o'u heglwysi lleol. Bydd cyfle wedyn i fynd i'r Ganolfan i gael cinio ac i gymdeithasu. Dewch â phicnic hefo chi – cewch banded yno. Gan mai hon fydd yr unig oedfa y Sul hwn a chan ei bod yn oedfa arbennig, gobeithio y medrwch wneud pob ymdrech i fod yn bresennol. Croeso cynnes i bawb!</p>



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 19^{eg} Gorffennaf 2015 *Darlleniad y Dydd*
Mathew 18:1-5 (BCND tud.21 / BCN: tud.19)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Efallai y bydd rhai ohonoch yn y Sioe erbyn hyn a rhai yn disgwyl am gael mynd yn ystod y dyddiau nesaf. Pob hwyl i chi a gobeithio y cewch fwynhad yng nghwmni'ch gilydd ac wrth weld cynnyrch Cymru ar ei orau. Byrdwn y Sioe ydi'r nod o wella a darganfod ffordd newydd ac effeithiol o amaethu a magu anifeiliaid. Gwella ar y 'best of breed' y llynedd, ac felly ymlaen. Ceisio'r gorau – mae'n nod dda i'w gael mewn bywyd. Wrth i ni gyd-addoli heddiw, diolchwn i Dduw am amrywiaeth y cread, am ei greaduriaid rhyfeddol ac amrywiol, ac am ei rodd o gynhaliaeth i ni trwy lafur a gras. Yng ngeiriau emyn 104 "Am bob rhodd i ddynol-ryw gennynt o'th drugaredd gref.....O Dduw graslon, dygwn ni aberth mawl i'th enw Di."

Ac os ydi Duw mor hael i ni trwy ei greadigaeth, cymaint mwy yw ei roddion hael i ni yn ei deyrnas, ei Eglwys. Rydym yn cyfrif, rwy'n siŵr, mai rhodd Duw i'w eglwys yma ym Mro Aled ydi Rhodri a Gwenno, ac ar drothwy'r cyfnod newydd a chynhyrfus yma yn eu bywyd, braint fawr i mi ar eich rhan ydi dymuno'n dda iddynt, nid yn unig am flwyddyn yr astudio yn Llundain, ond hefyd fel mam a thad o ganol Awst ymlaen! Cyflwynwn y ddau i ofal yr Arglwydd yn y sicrwydd ei fod am eu cadw trwy bob profiad newydd yn ei ras a'i gariad tragwyddol. Pob bendith i chi'ch dau a diolch i Dduw amdanoch a'ch gwasanaeth iddo – hyd yma(!) – yn ein plith. "A dyma'i roddion ... i gymhwyso'r saint i waith gweinidogaeth" (Effesiaid 4:11)

Tasg bwysig ac anodd o ddewis y gorau fydd gan y beirniaid yr wythnos hon yn y Sioe Fawr. Fe fydd angen ystyried pob nodwedd – llinach, ffurf, lliw, cryfder, tymer y creadur a'i ddefnyddioldeb. Dewis y gorau ymhlith creaduriaid y llawr. Ond beth tybed am y 'mwyaf' yn Nheyrnas Nefoedd? Beth ydi'r nodweddion y rheini? Mae Iesu'n rhoi yr ateb i ni yn y darlleniad heddiw: y mwyaf yn nheyrnas nefoedd yw'r un sy'n debycaf i blentyn – y mwyaf yw y lleiaf! Go brin y byddai unrhyw feirniad yn rhoi y lle blaenaf i'r lleiaf, ond yma mae Crist yn dweud fod Duw yn disgwyl i ni ymddwyn mewn dibyniaeth lwyr arno yn ei eglwys – fel y gwna plentyn gyda'i riant ac fel y gwnaeth Iesu gyda'i Dad nefol tra roedd o ar y ddaear. Ac nid oes neb uwch na Iesu yn awr! (Philipiad 2:6-10) Gweddiwn felly am gael ffydd i orffwys mewn ffydd yn Nuw ein Tad a'i wasanaethu ymhob man. Diolch i chi am bob cefnogaeth ac ymroddiad i waith yr Arglwydd dros y flwyddyn. Pob dymuniad da a phob bendith i chi dros yr wythnosau nesaf.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

SYLWER

Cyhoeddir y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar **Fedi'r 6^{ed}** (cyhoeddiadau i'w hanfon erbyn Medi 2^{il}, os gwelwch yn dda. **Os cyfyd unrhyw faterion bugeiliol dros yr haf, plis cysylltwch â Mair (07900 627536).**

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 19^{eg} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Aneurin, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Sul nesaf – 26^{ain} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 28^{ain} • **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer y criw dosbarth derbyn) yn Festri Llansannan am 7.30. Croeso i'r rhai sydd heb fod o'r blaen i ymuno yn y tri cyfarfod olaf cyn y gwasanaeth derbyn a gynhelir ar fore Sul cyntaf Medi.
- Mercher – 29^{ain} • **Adnabod – Grŵp Mair** yn cyfarfod yn y Granar am 7.30.
- Iau – 30^{ain} • **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 19^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a Mr Trebor Roberts yn arwain oedfa yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 19^{eg} Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 19^{eg} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 19^{eg} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron ac ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 19^{eg} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd Ysgol Sul am 2.00. Ni fydd gwasanaeth yn Groes heddiw.
- Sul nesaf – 26^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Cyhoeddiadau

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 19^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 26^{ain} Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.



Y Beibl Canllaw

Cofiwch, er mwyn manteisio ar y gostyngiad, dyma'r cyfle olaf i archebu copi o'r Beibl Canllaw. Pris y llyfr yw £25 ond cewch ostyngiad (fydd o leiaf £5) os rhowch eich archeb i Mair **HEDDIW**, os gwelwch yn dda.

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill sy'n dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Da medru adrodd fod Kitty Parry (Llanefydd) wedi dychwelyd adref yn dilyn cyfnod reit faith yn yr ysbyty, a hefyd Maldwyn Davies (Tanyfron) yn dilyn ei lawdriniaeth yntau. Danfonwn ein cofion atynt, gan weddio y bydd y ddau yn cryfhau dros yr wythnosau nesaf hyn. Parhawn i gofio hefyd am y rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn eu bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn. Mae eraill sy'n mynd trwy gyfnod digon anodd yn eu bywyd hefyd oherwydd amrywiol amgylchiadau. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw.
- Dymuniadau gorau i Glyn Williams (Cefn Meiriadog) fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 ar Awst 7fed, os Duw a'i mynn. Diolchwn i Dduw amdano, gan hyderu y bydd yn parhau i gael nerth ac iechyd.
- Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i Eiddwen Jones (Llansannan) ac Esmor Hughes fydd yn priodi ar Awst 7fed. Bydded bendith Duw ar eu priodas.
- Llongyfarchiadau i Dr Eirian Jones (Llanefydd) a Dr Andras Iago (Llansannan) ar ennill eu doethuriaeth.
- Edrychwn ymlaen i gael croesawu Gwion Dafydd (o'r Rhyl) a Sarah Johnson (o Llanasa) i weinidogaethu yn ein plith am y flwyddyn nesaf. Byddant yn cychwyn ar eu gwaith ar Fedi'r 1af. Gweddiwn y bydd Duw yn eu defnyddio yn helaeth, ac y bydd bendith ar y ddau ohonynt ac ar eu gwaith yn ein plith.

I ddod

- **TAITH GERDDED** –"O Achos i Achos, her!" Y rhan olaf o'r daith o gwmpas capeli'r ardal dydd Sadwrn, Medi 12fed. Mwy o fanylion yn nes at yr amser.
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** nos Fawrth, Medi 15fed am 7.30 yng Nghapel Henllan. Y siaradwraig fydd Sarah Morris.